

# S4C /

**MWY NA SIANEL DELEDU**
MORE THAN A TV CHANNEL

## STRATEGAETH 2030

## Pwrpas S4C yw

Dangos ein byd
drwy'r Gymraeg

## Ein Cenhadaeth yw

Ysbrydoli, diddanu ac
adlewyrchu Cymru gyda
chynnwys gwych i bawb

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| 04 | Cyflwyniad |
| 05 | Trosolwg o'r Strategaeth |
| 06 | Gwerthoedd S4C |
| 07 | Cyd-destun |
| 10 | Amcanion Strategol |
| 11 | Ehangu Gwylio gyda'n Cynnwys |
| 12 | Trawsnewid yn Ddigidol-yn-Gyntaf |
| 13 | Cydweithio i weld Cymru'n Ffynnu |
| 14 | Camau Nesaf |

# Cyflwyniad

**Delyth Evans** / Cadeirydd
**Geraint Evans** / Prif Weithredwr

Bu S4C yn fwy na sianel deledu erioed. Fe'i sefydlwyd nid yn unig mewn ymateb i ymgyrch gyhoeddus, ond fel addewid i'r dyfodol – i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei lle priodol yn y cyfryngau cyfoes i ddiogelu'r iaith, ei dathlu, ei thyfu a'i gwneud yn rhan naturiol o fywyd pob dydd.

Ers 1982, mae S4C wedi bod yn rhan annatod o wead diwylliannol Cymru, yn arweinydd amlwg o fewn yr economi greadigol ac yn asgwrn cefn yn natblygiad ein hiaith.

Ond mae arweinyddiaeth yn mynnu mwy na glynu at hanes; mae'n gofyn am feiddgarwch, herio ffiniau a chofleidio newid.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ledled y byd yn wynebu heriau sylfaenol, gan gynnwys newid digynsail ym mhatrwm defnydd cynulleidfaoedd, ansicrwydd ariannol, a chystadleuaeth gynyddol gan ffrydwyr rhyngwladol a chyfryngau digidol. I S4C, mae'r rhain yn heriau sy'n cael eu dwysáu gan y genhadaeth unigryw i wasanaethu'r Gymraeg, a chyrraedd cynulleidfaoedd drwy gyfrwng yr iaith, ymhle bynnag y bônt.

O ddeall y cyd-destun hwn, rydym yn benderfynol o sicrhau bod S4C yn berthnasol, yn fentrus ac yn greadigol wrth gynnig y llwyfan y mae Cymru'n ei haeddu – a dim llai. Mae gwaith i'w wneud.

Mae'r strategaeth hon yn gosod cyfeiriad cadarn ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r weledigaeth yn glir, yr ymrwymiad yn ddigyfaddawd a'r cynllun yn ymarferol. Bydd y strategaeth hon yn tywys y sefydliad drwy gyfnod o drawsnewid. Rydym yn ymrwymo i ddarparu arweiniad strategol, i annog arloesedd, i sicrhau atebolrwydd ac i amddiffyn gwerthoedd craidd y sefydliad. Yn fwy na dim, byddwn yn rhoi'n cynulleidfaoedd wrth wraidd pob penderfyniad a wnawn.

Mae S4C yn fwy na sianel deledu. Dros y pum mlynedd nesaf, fe welwch chi S4C yn ail-ddiffinio'i modd o gomisiynu a dosbarthu cynnwys er mwyn sefyll allan mewn marchnad gystadleuol – gan fanteisio ar ei darpariaeth unigryw Gymraeg a Chymreig. Fe welwch S4C yn cofleidio'r cyfleoedd i wasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol ar draws amryw blatfformau – gan symud yn hyderus at fod yn wasanaeth digidol-yn-gyntaf. Ac fe welwch S4C yn cydweithio â'r sector cynhyrchu ac eraill i ehangu ei heffaith y tu hwnt i'r sgrîn – gan ddwysáu ei chyfraniad at dwf yr iaith, diwylliant a'r economi greadigol ledled Cymru.

Wrth gamu ymlaen, bydd dyfeisgarwch, egni ac ymroddiad tîm S4C yn allweddol wrth sicrhau ein bod ni'n parhau i arwain, ysbrydoli a ffynnu. Drwy gydweithio gyda'n gilydd ac â phartneriaid S4C, rydym yn ffyddiog iawn y gallwn sicrhau llwyfan lewyrchus i'r iaith Gymraeg am flynyddoedd i ddod.





# Trosolwg o'r Strategaeth

## EHANGU GWYLIO GYDA'N CYNNWYS 1


**Mae S4C yn fwy na sianel deledu –**
mae'n gyrchfan greadigol unigryw sy'n ein cysylltu ni â bywyd cyfoes Cymru drwy'r Gymraeg. Cynnwys gafaelgar, sy'n creu sŵn, yn ysbrydoli ac yn adlewyrchu Cymru heddiw – dyna'r nod. Drwy ddulliau comisiynu a hyrwyddo craff a blaengar, byddwn yn ehangu cyrhaeddiad ein cynnwys ac yn codi proffil S4C ymhlith cynulleidfaoedd amrywiol.

## TRAWSNEWID YN DDIGIDOL-YN-GYNTAF 2

**Mae S4C eisoes yn fwy na sianel deledu –**
gyda'i chynnwys yn byw ar ystod o blatfformau poblogaidd. Ond mae gofyn inni fabwysiadu meddylfryd digidol-yn-gyntaf – nid yn unig o ran comisiynu a chyhoeddi cynnwys ond ar draws pob agwedd ar ein gwaith. Dim ond drwy drawsnewid y gallwn gystadlu, arloesi, a gwneud y Gymraeg yn amlwg yn yr oes ddigidol.

## CYDWEITHIO I WELD CYMRU'N FFYNNU 3

**Bu S4C yn fwy na sianel deledu erioed –**
mae'n arf hanfodol yn nyfodol y Gymraeg, yn rym creadigol yn niwylliant Cymru ac yn gatalydd i'r economi greadigol. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon yn llawn a chyfrannu at Gymru hyderus, gynhwysol a ffyniannus, mae'n rhaid i S4C gydweithio ag eraill er mwyn cyfuno creadigrwydd, adnoddau ac uchelgais ar draws sectorau.



# Gwerthoedd S4C

Caiff y strategaeth hon ei gweithredu'n gydnaws â'n gwerthoedd craidd, gan sicrhau bod pob penderfyniad – mawr a bach – yn adlewyrchu'r egwyddorion sy'n ein diffinio fel sefydliad. Mae'r gwerthoedd hyn yn fwy na geiriau; maent yn greiddiol i bopeth a wnawn. Cawn ein hysgogi i gydweithio gyda pharch a meddwl agored, i wasanaethu ein cynulleidfaoedd gyda gofal a gonestrwydd, ac i ymateb yn ddewr i heriau a chyfleoedd.

**Ein gwerthoedd craidd yw:**

## Ar Dy Orau:

Rydym yn annog ein gilydd i dyfu, datblygu a chyflawni hyd yr eithaf. Rydym yn cefnogi'n gilydd i fod yn rhagweithiol, yn gryf ein cymhelliad ac yn ymroddedig.

## Balch o S4C:

Rydym yn credu yng nghenhadaeth S4C ac yn falch o'r llwyfan rydym yn ei darparu i'r Gymraeg a'i diwylliant. Rydym oll yn llysgenhadon i S4C a'r gwaith rydym yn ei gyflawni.

## Cer Amdani:

Rydym yn ddewr, yn greadigol ac yn barod i arloesi. Rydym yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac yn benderfynol o wneud gwahaniaeth i'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau.

## Dathlu Pawb:

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Rydym yn cofleidio gwahanol leisiau a phrofiadau, ac yn ymfalchïo yn llwyddiannau ein gilydd.

# Y Cyd-destun

Yn ganolog i waith yn S4C mae'r gred y dylai gwasanaeth cyhoeddus ddechrau gyda dealltwriaeth glir o'n cynulleidfaoedd – eu hanghenion, eu disgwyliadau a'u dyheadau.

Er gwaethaf y toreth o gynnwys a gwasanaethau byd-eang, mae galw cryf o hyd am gyfryngau sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes, sy'n tynnu sylw at faterion o bwys i'n cymunedau ac sy'n cynnig cyfleoedd i glywed y Gymraeg fel iaith fyw.

Lluniwyd y strategaeth hon gyda'n cynulleidfaoedd amrywiol wrth ei chraidd. Mae ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf hefyd wedi'u llywio gan newidiadau sylweddol yn nhirwedd y cyfryngau a'r Gymraeg, datblygiadau polisi cyhoeddus a'r heriau ariannol sy'n wynebu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.





## Tirwedd y Cyfryngau

**Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw conglfaen tirwedd y cyfryngau yn y DU. Ond mae cystadleuaeth ddigynsail gan ffrydwyr rhyngwladol a chyfryngau digidol wedi herio'r model darlledu traddodiadol ers sawl blwyddyn. Mae gwylwyr o bob oed yn treulio llai o'u hamser yn gwylio teledu traddodiadol, a mwy o'u hamser ar blatfformau digidol fel Netflix, YouTube a TikTok.**

Yn wyneb y newid mawr, mae S4C eisoes wedi cymryd camau pwysig drwy fuddsoddi yn ein gwasanaethau digidol a chyhoeddi cynnwys amrywiol ar wahanol blatfformau. Rydym wedi dechrau'r daith; ond er mwyn cystadlu ac ymestyn cyrhaeddiad cynnwys Cymraeg, mae'n rhaid addasu, arloesi a buddsoddi ymhellach gyda gweledigaeth glir ynghylch cynnig unigryw S4C.

Yn y cyfamser, mae cynaliadwyedd ariannol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel S4C o dan bwysau cynyddol. Erbyn 2027, byddwn yn gwneud yr achos dros gyllid digonol i'r dyfodol – cyllid i'n galluogi i ddarparu gwasanaeth cyfoes, cynhwysol ac uchelgeisiol ar draws ein holl blatfformau. Byddwn hefyd yn ceisio sicrwydd ariannol hirdymor i allu cynllunio'n strategol mewn marchnad gystadleuol.

Mae Deddf Cyfryngau 2024 wedi rhoi sylfaen bwysig ar gyfer amlygrwydd S4C ar deledu clyfar, ond mae'n gofyn am fuddsoddiad technolegol sylweddol gennym dros y cyfnod nesaf. Ac er bod y ddeddfwriaeth hon yn gam ymlaen, nid yw'n mynd i'r afael ag amlygrwydd ar blatfformau rhannu fideo megis YouTube a TikTok, lle mae'r frwydr am sylw cynulleidfaoedd ifanc yn digwydd go iawn.

Yn ogystal, mae datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial (AI) eisoes yn trawsnewid tirwedd y cyfryngau, ac mae'n anochel y bydd yn newid ein ffyrdd o greu a rhannu cynnwys. Mae gennym gyfrifoldeb pwysig i archwilio ei botensial i wella profiad y gynulleidfa, cynyddu effeithlonrwydd a chynnig dulliau newydd o ymgysylltu. Ar yr un pryd, rhaid gwarchod creadigrwydd, dibynadwyedd a hunaniaeth ieithyddol ein cynnwys.

## Ymddygiad Cynulleidfaoedd

**Bydd dau newid sylfaenol o ran ymddygiad cynulleidfaoedd yn mynnu ein sylw yn ystod y pum mlynedd nesaf: y symudiad parhaus o wylio drwy ddarlledu traddodiadol (teledu daearol, lloeren a chebl) i ffrydio dros y rhyngrwyd, ac o fewn hynny hefyd, y newid o wylio llinol (yn dilyn amserlen) i wylio ar-alw (ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i'r gwyliwr).**


Dros gyfnod y strategaeth, bydd y tueddiadau hyn yn dwysáu. Ac oni bai bod S4C yn addasu ac yn cynnig profiad gwylio sy'n ymateb i'r newid, bydd hi'n gynyddol anodd i atal dirywiad yn ein cynulleidfaoedd.

Er y newid mawr, mae cynnwys gan ddarlledwyr yn parhau i fod yn boblogaidd. Yn ôl adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom, yn 2024 roedd teledu byw ac ar-alw gan ddarlledwyr yn cyfrif am 56% o'r holl wylio yng Nghymru. Tua 16% o'r gwylio oedd ar wasanaethau ffrydio drwy danysgrifio fel Netflix ac Amazon, ac 15% ar blatfformau rhannu fideos megis YouTube.

Mae ymddygiad cynulleidfaoedd S4C eisoes yn newid: 14% o holl oriau gwylio S4C sy'n dod drwy iPlayer, S4C Clic ac YouTube, ac mae'r gyfran hon yn cynyddu'n flynyddol. Ac er ein bod yn gweld twf mewn gwylio digidol gan wylwyr o bob oed, mae'r to iau wedi troi at y platfformau digidol yn gynt: daw traean o wylio S4C gan bobl 16-44 oed drwy blatfformau digidol, ac yn fwyfwy ar setiau teledu yn hytrach na ddyfeisiadau eraill.

Mae'r newid yn her sylweddol i S4C, ond mae hefyd yn gyfle i ailystyried ac addasu sut rydym yn cyflwyno'n cynnwys i gynulleidfaoedd, pryd bynnag ac ymhle bynnag maen nhw'n dewis gwylio.





# Y Gymraeg

**Mae amcanion Cymraeg 2050 wedi ennyn cefnogaeth eang, ond mae'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn hynny yn heriol. Yn ôl y Cyfrifiad, ers rhai degawdau, tua un o bob pump yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg.**

Mae'r Gymraeg wedi ehangu'n ddaearyddol mewn ardaloedd trefol lle nad oedd yn gyffredin genhedlaeth yn ôl, tra bod y defnydd ohoni wedi lleihau yn ei chadarnleoedd traddodiadol.

Bellach, mae mwy o blant yn dod at yr iaith drwy'r system addysg, yn hytrach na'i chael ar yr aelwyd. Mae hyn wedi newid y dirwedd ieithyddol yn sylfaenol, gyda thua hanner siaradwyr Cymraeg heddiw yn byw mewn cartrefi lle nad yw pawb yn siarad yr iaith.

Mae'r realiti hwn yn gofyn am ymateb dewr a chreadigol gan S4C wrth gomisiynu, dosbarthu a hyrwyddo cynnwys. Rhaid i S4C fod yn fwy na sianel – i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, pobl ifanc, rhai llai hyderus yn eu Cymraeg, pobl ar aelwydydd dwyieithog, a'r rhai sy'n troi'n bennaf at blatfformau digidol i wylio cynnwys.

Yn y byd digidol, lle mae cynnwys Saesneg yn dominyddu drwy faint, cyllid ac algorithmau, mae'n her i sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg ac yn hawdd ei darganfod – nid yn unig ar deledu clyfar, ond hefyd ar blatfformau rhannu fideo a chyfryngau cymdeithasol. Mae tri chwarter o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol bron yn gyfan gwbl yn Saesneg yn ôl adroddiad Comisiynydd y Gymraeg yn 2025; rhaid rhoi'r Gymraeg ar flaen y gad yn ddigidol.

Mae angen i S4C fuddsoddi'n greadigol ac yn ddeallus mewn cynnwys sy'n gwneud y Gymraeg yn gyfrwng naturiol sy'n ennyn balchder. Mae hyn yn fwy na darlledu – mae'n ymwneud â chynnal ecosystem lle mae'r Gymraeg yn gallu ffynnu oherwydd ei bod yn perthyn i bawb.

# Amcanion Strategol

# 1

# Ehangu Gwylio gyda'n Cynnwys

**Mae S4C yn fwy na sianel deledu –**
mae'n gyrchfan greadigol unigryw sy'n ein cysylltu ni â bywyd cyfoes Cymru drwy'r Gymraeg. Mewn byd lle mae dewis yn ddiderfyn, mae'n rhaid i S4C sefyll allan gyda chynnwys sy'n creu sŵn, yn cynnig profiad unigryw ac yn denu cynulleidfaoedd amrywiol. Gyda'r cyfrifoldeb unigryw dros adlewyrchu diwylliant a chymunedau Cymru, mae gofyn i S4C ehangu ei chyrhaeddiad. Rhaid symud o lenwi amserlen deledu at fodel comisiynu strategol sy'n defnyddio data i dargedu cynulleidfaoedd penodol ar draws ein platfformau, a chreu cynnwys sy'n diwallu arferion gwylio cyfoes. Efallai na all S4C fod yn bopeth i bawb drwy'r amser, ond ein nod yw cynnig rhywbeth i bawb. Drwy ehangu gwylio gyda chynnwys gafaelgar, byddwn yn sicrhau bod S4C yn darparu llwyfan lewyrchus i'r Gymraeg.



## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth, byddwn yn:**

- Blaenoriaethu cynnwys sy'n afaelgar, yn hawdd ei hyrwyddo ac yn denu gwylwyr at S4C.
- Comisiynu cynnwys sy'n bwydo arferion gwylio newydd ar blatfformau digidol, gan ddyfnhau a chyfoethogi ein harlwy.
- Symud y tu hwnt i lenwi amserlen linol at ddull comisiynu strategol sy'n gyrru gwylio ar draws platfformau.
- Addasu sut rydym yn mesur perfformiad ein cynnwys, gan dynnu ar ddata manwl am ymwneud cynulleidfaoedd â'n cynnwys ar wahanol blatfformau.
- Targedu carfannau penodol o'n cynulleidfa gyda'n cynnwys, er mwyn ehangu nifer y gwylwyr sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac S4C.
- Sicrhau ein bod yn adlewyrchu cymunedau ar hyd a lled Cymru, a thrwy hynny newid canfyddiadau am frand S4C.
- Bod yn gartref i wyliau a digwyddiadau cenedlaethol i Gymru gyfan o bob cefndir i'w mwynhau, gan ddyfnhau'r profiad hynny i'r gwylwyr ar draws ein platfformau.
- Sicrhau hawliau byw, ecsgliwsif lle bo hynny'n bosibl, ar gyfer chwaraeon poblogaidd, er mwyn denu a gwasanaethu cynulleidfa eang.
- Clustnodi cyllideb ar gyfer cynnwys o'r radd flaenaf – o blant i ddrama – a fydd hefyd yn ennill gwobrau ac yn dod â bri a chyfleoedd newydd i S4C yn rhyngwladol.

## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ **Ehangu cyrhaeddiad S4C yng Nghymru, ymhlith siaradwyr Cymraeg, ac ar draws y DU.**
- ✓ **Cynyddu'r nifer o wylwyr iau, gwylwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg neu'n byw ar aelwydydd cymysg eu hiaith, a chynulleidfaoedd ar incwm is.**
- ✓ **Gwella canfyddiad o frand a chynnwys S4C ymhlith cynulleidfaoedd amrywiol.**

# 2

# Trawsnewid yn Ddigidol-yn-Gyntaf

**Mae S4C eisoes yn fwy na sianel deledu –** mae'n byw ar ystod o blatfformau digidol poblogaidd lle mae siaradwyr Cymraeg yn canfod eu cynnwys. Gyda mwy o wylwyr yn troi at ffrydio, mae adeiladu presenoldeb cryf ar draws platfformau digidol yn allweddol. Er mwyn parhau ar y daith hon, mae'n rhaid i ni fabwysiadu meddylfryd digidol-yn-gyntaf – nid yn unig o ran comisiynu a chyhoeddi cynnwys – ond ar draws pob rhan o'r sefydliad. Mae hynny'n golygu trawsnewid systemau, llifoedd gwaith a'n diwylliant sefydliadol i fod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn barod ar gyfer y cynulleidfaoedd digidol sydd bellach yn ganolog i'n cenhadaeth. Dim ond drwy drawsnewid yn ddigidol-yn-gyntaf gallwn gystadlu, arloesi, a gwneud y Gymraeg yn amlwg yn yr oes ddigidol.

## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:**

- Datblygu ein strategaeth cyhoeddi cynnwys gyda meddylfryd digidol-yn-gyntaf.
- Annog mwy o wylio ar-lein, gan sicrhau bod gwylio digidol yn gyfran gynyddol uwch o'r holl wylio, a chynorthwyo ein cynulleidfaoedd wrth droi yn ddigidol.
- Gwella amlygrwydd S4C Clic ar draws platfformau teledu clyfar drwy gryfhau ein perthnasau â nhw.
- Hwyluso darganfod ein cynnwys ar ystod o blatfformau digidol drwy rannu metadata yn effeithiol.
- Datblygu presenoldeb ac amlygrwydd cynnwys S4C ar iPlayer drwy nodweddion ychwanegol a phersonoleiddio.
- Cynyddu'r defnydd o ffrydiau byw wedi'u curadu i wella mynediad at gynnwys perthnasol i gynulleidfaoedd penodol.
- Cynyddu'r ffenestr wylio ar-alw fel bod llyfrgell gyfoethog o gynnwys S4C ar gael i'w mwynhau am gyfnod estynedig.
- Parhau i esblygu gwasanaeth digidol Newyddion S4C er mwyn darparu newyddion dibynadwy ar blatfformau digidol.
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi cynnwys ffurf-fer sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn hyrwyddo ein brand a'r iaith Gymraeg.
- Arbrofi gyda, ac ymgorffori technolegau newydd i'n darpariaeth, gan sicrhau bod S4C yn arloesol ac yn diwallu disgwyliadau cynulleidfaoedd digidol.
- Addasu llifoedd gwaith, systemau a phrosesau ac ailgyfeirio ein hadnoddau mewnol i gefnogi'r weledigaeth digidol-yn-gyntaf, gan sbarduno mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI).



## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ **Cynyddu oriau gwylio S4C ar draws platfformau ffrydio.**
- ✓ **Gwella amlygrwydd a darganfyddadwyedd S4C ar blatfformau teledu clyfar.**
- ✓ **Cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr actif wythnosol a misol ar S4C Clic ac iPlayer.**

# 3

# Cydweithio i weld Cymru'n Ffynnu

**Mae S4C yn fwy na sianel deledu –**
mae'n asgwrn cefn i ddiwylliant cyfoes Cymru ac yn rym creadigol sy'n bywiogi'r iaith Gymraeg. Mewn cyfnod o newid, mae'n arf hanfodol yn y frwydr dros ddyfodol y Gymraeg drwy ei gwneud yn fyw, yn berthnasol ac yn destun balchder. Mae S4C yn gatalydd ar gyfer twf economaidd ledled y wlad, gan feithrin talent a chynnig llwyfan i leisiau Cymraeg o bob cefndir. Ond i wireddu'r weledigaeth hon yn llawn, rhaid i S4C gydweithio ag eraill – gan uno creadigrwydd, adnoddau ac uchelgais ar draws sectorau – er mwyn cyfrannu at Gymru hyderus, gynhwysol a ffyniannus, lle mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac yn rhan naturiol o fywyd pob dydd.

## Camau Gweithredu

**Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn:**

- Hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg drwy ein holl weithgareddau, gan gynnwys cyfrannu at wireddu amcanion Cymraeg 2050.
- Drwy ein partneriaethau, gweithredu fel sefydliad angor ym maes diwylliant, y celfyddydau a'r sector cynhyrchu yng Nghymru i gefnogi twf a datblygu sgiliau.
- Cynnig cyfleoedd i feithrin talent o gefndiroedd amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli gyda chyfleoedd gwaith a phrentisiaethau.
- Annog cyd-gynyrchiadau a phartneriaethau strategol o fewn y DU ac yn rhyngwladol fel dull o ddatblygu sgiliau a phrofiadau cwmnïau, gan ehangu eu gallu i gystadlu yn y diwydiant.
- Hwyluso mynediad cwmnïau newydd i'r sector, gan eu cefnogi i gyflwyno syniadau i S4C a darparu cymorth i ddatblygu eu gallu i greu cynnwys o ansawdd uchel.
- Cydweithio â darlledwyr eraill y DU i hybu a diogelu dyfodol cynaliadwy i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er budd cynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt.
- Datblygu strategaeth S4C Masnachol er mwyn cynnal incwm masnachol fel cyfraniad pwysig i'r gyllideb gwasanaeth cyhoeddus, a meithrin partneriaethau masnachol newydd yng Nghymru.
- Sicrhau ein bod yn lleihau ôl-troed carbon gweithgareddau S4C.
- Datblygu canfyddiad ynghylch S4C fel cyflogwr agored a chynhwysol, sydd yn buddsoddi yn ei phobl, ac yn cynnig swyddi a chyfleoedd ar draws Cymru gyfan.




## Beth fydd llwyddiant?

- ✓ **Cynyddu'r arferiad o ymwneud ag S4C, ac o ganlyniad defnydd rheolaidd o'r Gymraeg, ymhlith siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc yn enwedig.**
- ✓ **Ehangu ardrawiad economaidd a chymdeithasol gweithgareddau S4C.**
- ✓ **Gwella'r gynrychiolaeth ar-y-sgrin ac oddi-ar-y-sgrin o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.**

# Camau Nesaf

**Ers ei sefydlu yn 1982, mae S4C wedi gweithio law yn llaw â'r sector cynhyrchu yng Nghymru i greu cynnwys o'r radd flaenaf, i feithrin talent greadigol a chryfhau'r diwydiannau creadigol ledled y wlad. Mae'r bartneriaeth hon wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant, ac mae'n parhau i fod wrth graidd ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.**

Mae'r strategaeth hon yn ein herio i anelu'n uwch, i weithredu'n feiddgar ac i osod uchelgais glir ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mewn byd sy'n newid yn barhaus, ein nod yw atgyfnerthu ein cysylltiad â chynulleidfaoedd amrywiol o bob cefndir ac o bob oed, ymhle bynnag a sut bynnag maen nhw'n dewis gwylio.

Er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn dwyn ffrwyth, bydd y tîm gweithredol yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd bob chwarter, a bydd y strategaeth ei hun yn cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, effeithiol ac uchelgeisiol.

Wrth gamu ymlaen, rydym yn benderfynol o adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros y degawdau diwethaf. Gyda'n partneriaid a'n cynulleidfaoedd, byddwn yn parhau i ddatblygu llwyfan sy'n rhoi lle canolog i'r Gymraeg, sy'n tanio creadigrwydd ar draws Cymru ac sy'n ymestyn ei dylanwad ymhell tu hwnt i'r sgrîn.

